



Swyddfa Gartref

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y SWYDDFA GARTREF

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



**CYNLLUN IAITH GYMRAEG  
Y SWYDDFA GARTREF**

Paratowyd o dan Ddeddf  
yr Iaith Gymraeg 1993

Medi 2009



# CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y SWYDDFA GARTREF



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

Mae'r Swyddfa Gartref wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut mae'r Swyddfa Gartref, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwn. Fe'i paratowyd o dan adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 14 Ionawr 2002 a chafodd y fersiwn diwygiedig hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Medi 2009.

Yn y cynllun hwn, mae'r term **'cyhoeddus'** yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Caiff cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig eu cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoeddus' hefyd. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus swyddogol, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y gair 'cyhoeddus' pan fônt yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Er gwaethaf hyn, rydym yn cefnogi darpariaeth iaith Gymraeg ein hasiantaethau a'r heddlu i'r cyhoedd a byddwn yn datblygu eu gallu i weithio'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn hefyd yn helpu'r heddlu i gynnal gweithgareddau recriwtio a hyrwyddo yn Gymraeg.

# Cynnwys

<b>Adran 1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>4</b>
1.1–3	Diben/Amcanion/Gwerthoedd	4
1.4	Asiantaethau	4
1.5–6	Ymholiadau	5
<b>Adran 2</b>	<b>Cynllunio a darparu gwasanaethau</b>	<b>6</b>
2.1–5	Polisiâu a mentrau newydd	6
2.6–9	Darparu gwasanaethau	6
2.10	Safon y gwasanaeth	7
2.11	Dyfarnu grantiau a benthyciadau	7
<b>Adran 3</b>	<b>Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg</b>	<b>8</b>
3.1–4	Gohebiaeth	8
3.5	Cyfathrebu dros y ffôn	8
3.6	Cyfarfodydd cyhoeddus, ymchwiliadau neu wrandawiadau	8
3.7	Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru	8
<b>Adran 4</b>	<b>Wyneb cyhoeddus yr Adran</b>	<b>9</b>
4.1	Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu	9
4.2	Hunaniaeth gorfforaethol	9
4.3	Teitlau	9
4.4–5	Arwyddion	9
4.6–7	Cyhoeddiadau a ffurflenni	9
4.8–9	Gwefannau	10
4.10	Hysbysebion yn y wasg	10
4.11	Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff	10
4.12–14	Ymgyrchoedd yn y cyfryngau	10
4.15	Deunydd a ddarperir gan sefydliadau eraill i'w ddefnyddio gyda'r cyhoedd	11
4.16–17	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	11
4.18	Gwaith partneriaeth	11
<b>Adran 5</b>	<b>Gweithredu a monitro'r cynllun</b>	<b>12</b>
5.1–3	Gweithredu	12
5.4	Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	12
5.5–8	Gwasanaethau a ddarperir ar ran yr Adran gan drydydd partion	12
5.9–10	Monitro	13
5.11	Adolygu a diwygio'r cynllun	13
5.12	Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella	13
5.13	Cyhoeddusrwydd	13
<b>Atodiad A</b>	<b>Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r cynllun</b>	<b>14</b>

# Adran 1 Cyflwyniad

1.1 Diben, amcanion a gwerthoedd.

## DIBEN

Ein diben yw cydweithio i ddiogelu'r cyhoedd.

## AMCANION

Wrth gydweithio i ddiogelu'r cyhoedd, rydym yn canolbwyntio ar saith amcan allweddol. Byddwn yn cydweithio â'r cyhoedd a'n partneriaid ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol i:

- Helpu pobl i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau lleol
- Lleihau troseddau, yn enwedig troseddau treisgar a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol
- Arwain plismona gweladwy, ymatebol ac atebol
- Diogelu'r cyhoedd rhag terfysgaeth
- Diogelu ein ffiniau a rheoli ymfudo er lles ein gwlad
- Diogelu hunaniaeth pobl a breintiau dinasyddiaeth
- Cefnogi'r broses o weinyddu cyfiawnder mewn modd effeithlon ac effeithiol.

## GWERTHOEDD

Mae'r gwerthoedd a ddatblygwyd gennym drwy ymgynghori â'n staff a'n rhanddeiliaid yn sail i'r ffordd y byddwn yn cyflawni ein hamcanion ac yn arwain ein hymddygiad bob dydd:

- Rydym yn cyflawni er budd y cyhoedd
- Rydym yn broffesiynol ac yn arloesol
- Rydym yn gweithio'n agored ac yn gydweithredol
- Rydym yn trin pawb â pharch.

1.2 Mae'r Swyddfa Gartref ganolog yn cynnwys y cyfarwyddiaethau canlynol:

Cyfarwyddiaeth Gyfathrebu, Grŵp Troseddau a Phlismona, Grŵp Ariannol a Masnachol, Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth Ryngwladol, Cangen y Cynghorydd Cyfreithiol, Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth, Swyddfa Breifat, Grŵp Gwyddoniaeth ac Ymchwil, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau a Rennir, Cyfarwyddiaeth Strategaeth a Diwygio.

1.3 Ar wahân i ddarparu gwybodaeth a chyhoeddiadau, prin iawn yw'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran i'r cyhoedd, boed hynny yng Nghymru neu Loegr. Caiff y rhan fwyaf o'r gwasanaethau i'r cyhoedd eu darparu gan asiantaethau neu gyrff cyhoeddus anadrannol.

## ASiantaethau

1.4 Bydd yr Adran yn sicrhau bod asiantaethau cyflawni yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn onid oes ganddynt eu cynllun iaith Gymraeg eu hunain. Bydd yr Adran yn annog Asiantaeth Ffiniau'r DU, y Swyddfa Cofnodion Troseddol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau i gydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth baratoi eu cynlluniau iaith Gymraeg os gwneir cais gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.



## YMHOLIADAU

- 1.5 Y gyfarwyddiaeth dan sylw fydd yn gyfrifol am roi'r cynllun hwn ar waith yn y Swyddfa Gartref. Felly, dylid cyfeirio ymholiadau am bynciau penodol at y gyfarwyddiaeth berthnasol.
- 1.6 Cydgysylltydd yr Iaith Gymraeg yn y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog fydd yn gyfrifol am gydgysylltu a monitro'r cynllun hwn yn gyffredinol. Mae'r cyfeiriad fel a ganlyn:

Welsh Language Co-ordinator  
Translations  
Central Office of Information  
Hercules House  
Hercules Road  
London SE1 7DU

## Adran 2 Cynllunio a darparu gwasanaethau

### POLISIÂU A MENTRAU NEWYDD

2.1 Gweithredir polisiau, mentrau a gwasanaethau'r Swyddfa Gartref yn unol â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg a, lle y bo'n bosibl, byddant yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Lle y bo'n bosibl, bydd dogfennau ymgynghori sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru yn trafod y gydberthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r polisiau, y mentrau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu.

2.2 Bydd y canllawiau i uwch reolwyr yn tanlinellu perthnasedd y cynllun i'r broses o lunio polisiau, a phwysigrwydd ystyried yr angen i gynnig a darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn ystod y cam cynllunio.

2.3 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw o ran unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun hwn, neu a fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.

2.4 Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, bydd y Swyddfa Gartref yn:

- sicrhau bod y canlyniadau ieithyddol wedi'u hasesu;
- sicrhau bod cynnwys polisiau a mentrau o'r fath yn gyson â'r cynllun hwn, ac nad ydynt yn tansilio'r cynllun na chynlluniau sefydliadau eraill; a
- sicrhau bod y mesurau a geir yn y cynllun hwn yn cael eu cymhwyso at bolisiau a mentrau newydd pan gânt eu rhoi ar waith.

2.5 Pan gaiff polisiau a mentrau newydd eu cyflwyno sy'n debygol o effeithio ar aelodau o'r cyhoedd (yn cynnwys y cyhoedd yng Nghymru), bydd y Swyddfa Gartref yn:

- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl; a

- symud yr Adran yn agosach at weithredu'r egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle.

Os canfyddir bod polisiau, codau ymarfer, canllawiau ac ati sy'n bodoli eisoes yn groes i ddarpariaeth Deddf yr Iaith Gymraeg a'r cynllun hwn, cânt eu hadolygu cyn gynted â phosibl.

### DARPARU GWASANAETHAU

2.6 Caiff gwasanaethau'r Swyddfa Gartref i'r cyhoedd yng Nghymru eu darparu yn unol â chynnwys y cynllun hwn, sy'n disgrifio sut y caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio wrth fynd i'r afael ag amcanion strategol y Swyddfa Gartref fel y'u rhestrir ym mharagraff 1.1.

2.7 Caiff pob un o gyfarwyddiaethau'r Swyddfa Gartref eu cwmpasu gan y cynllun hwn – ynghyd ag unrhyw sefydliadau eraill y gallai cyfrifoldebau'r cyfarwyddiaethau hynny fod wedi'u trosglwyddo iddynt (pa un ai o ganlyniad i brofi ar y farchnad, contractio allan neu ar unrhyw sail arall) – a byddant yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg a chanllawiau a chynghor Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y Swyddfa Gartref yn annog pob sefydliad arall y mae'n delio ag ef i ystyried y dimensiwn Cymraeg lle y bo'n briodol.

2.8 Yn ystod arolygiadau o heddluoedd yng Nghymru a gynhelir gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi, rhoddir ystyriaeth ddyladwy i Gynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref (yn cynnwys, lle y bo'n bosibl, darparu arolygwyr sy'n siarad Cymraeg, pan wneir cais gan unrhyw heddlu yng Nghymru). Mae cynlluniau gwasanaeth neu fframweithiau cyflwyno adroddiadau (megis y gwerth gorau) yn cynnwys mesurau o ran y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff yr iaith Gymraeg ei hystyried yn faes cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru, yn yr un modd â meysydd eraill o'r agenda Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

2.9 Bydd y Swyddfa Gartref yn hwyluso darpariaeth gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru gan eraill ac yn dileu unrhyw rwystrau a allai atal trydydd partion rhag defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghymru yn ffactor pwysig o ran cyfle cyfartal ac amrywiaeth ac, fel y cyfryw, bydd yn rhan annatod o agenda cyfle cyfartal y Swyddfa Gartref.

Lluniwyd Concordat sy'n diffinio gweithdrefnau gweithredol a gwaith rhwng y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn berthnasol i faterion megis gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng y ddau gorff. Gwneir penderfyniadau ar rannu cyfrifoldeb o ran darpariaeth Gymraeg mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cynulliad Cymru a chan gyfeirio at y Concordat.

Caiff deunydd a ddarperir gan y Swyddfa Gartref i'r heddlu, a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, neu at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg neu mewn fformat dwyieithog, yn unol â'r dull a ddisgrifir isod.

Lle y bydd angen ffurflenni, rheoliadau, rheolau neu weithdrefnau rhagnodedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru, cynhyrchir y rhain yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn unol â'r ymrwymadau yn y cynllun hwn.

Bydd systemau a phecynnau cyfrifiadurol a gaffaelir gan y Swyddfa Gartref neu mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref – iddi'i hun neu i sefydliadau cysylltiedig – yn darparu allbynnau dwyieithog at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ac yn gallu (yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth diogelu data sydd mewn grym) cofnodi a throsglwyddo gwybodaeth am ddewis iaith unigolyn neu sefydliad. Gweithredir hyn o gam cynllunio ac asesu unrhyw system neu becyn newydd.

Lle cyhoeddir canllawiau ar weithdrefnau i drydydd partion fel crwneriaid, byddant yn adlewyrchu'r angen i gynnig gwasanaeth iaith Gymraeg yng Nghymru.

Caiff sgiliau Cymraeg ymgeiswyr eu hystyried pan wneir penodiadau i fyrddau, paneli neu dribiwnlysoedd.

## **SAFON Y GWASANAETH**

2.10 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o'r un safon ac yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser, lle y bo'n bosibl. Bydd y Swyddfa Gartref yn esbonio hyn yn glir pan fydd yn gwneud datganiadau ar ansawdd gwasanaethau a chyfle cyfartal.

## **DYFARNU GRANTIAU A BENTHYCIADAU**

2.11 Pan fo'r Swyddfa Gartref yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau a gynhelir yng Nghymru, bydd yr Adran yn cynnwys amodau mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Gartref yn dilyn canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau.

# Adran 3 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

## GOHEBIAETH

3.1 Bydd aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â'r Swyddfa Gartref yn gallu gwneud hynny yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, a bydd croeso iddynt wneud hynny. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn ysgrifennu at yr Adran yn Gymraeg, bydd yr Adran yn:

- ateb yn Gymraeg; ac
- ateb o fewn yr un dyddiad targed ag atebion i'r rhai sy'n ysgrifennu yn Saesneg.

3.2 Pan fydd yr Adran yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg lle y gwyddys y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

3.3 Bydd unrhyw ohebiaeth ddilynol yn Gymraeg, oni fydd yr unigolyn neu'r sefydliad dan sylw yn nodi fel arall.

3.4 Rhoddir canllawiau i'r staff ar sut i ddelio â gohebiaeth a ysgrifennir yn Gymraeg.

Yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ati isod, pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd y deunydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynnydd ei gael yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau fel dogfennau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd fel mater o arfer.

Bydd dogfennau a amgaeir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd dogfennau a amgaeir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd yr uchod yn gymwys ar gyfer gohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a anfonir gennym ar ffurf copi caled wedi'i llofnodi.

Caiff ymateb y Swyddfa Gartref i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn yr iaith Gymraeg ei ddrafftio yn Saesneg. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, caiff ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i anfon fel yr ateb. Caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ohebiaeth eu cadw ar ffeil o fewn yr adran wreiddiol er mwyn cynorthwyo staff y Swyddfa Gartref nad ydynt yn gyfarwydd â'r iaith Gymraeg.

## CYFATHREBU DROS Y FFÔN

3.5 Oherwydd ein lleoliad ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn sefydlu llinellau ffôn, canolfannau galwadau neu gyfleusterau tebyg i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd y Swyddfa Gartref yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

## CYFARFODYDD CYHOEDDUS, YMCHWILIADAU NEU WRANDAWIADAU

3.6 Nid yw'r Swyddfa Gartref yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, ymchwiliadau na gwrandawiaidau yn aml iawn. Fodd bynnag, os caiff cyfarfodydd o'r fath eu cynnal, a'u bod yn cael eu cynnal yng Nghymru, darperir gwasanaeth cyfieithu oni fyddwn wedi cael gwybod bod pob cyfranogwr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

- Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog a byddant naill ai'n nodi bod cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i hysbysu'r Adran o ba iaith yr hoffent ei siarad ymlaen llaw.
- Darperir papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus mewn fformat dwyieithog a chaiff pob adroddiad a phapur a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus ei gynhyrchu yn y ddwy iaith.

## YMWNEUD ARALL Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

3.7 Pan fydd yr Adran yn cynnal arolygon cyhoeddus, bydd yr holl ohebiaeth â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

# Adran 4 Wyneb cyhoeddus yr Adran

## YMGYRCHOEDD CYHOEDDUSRWYDD, ARDDANGOSFEYDD A HYSBYSEBU

4.1 Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus a'r deunydd arddangos a hysbysebu a ddefnyddir yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn cael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd lle y bo'n bosibl a bydd yr un mor hawdd cael gafael arnynt.

## HUNANIAETH GORFFORAETHOL

4.2 Bydd y Swyddfa Gartref yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd enw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yr Adran yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar unrhyw ddeunydd y mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn ymddangos arno, yn cynnwys deunydd ysgrifennu adrannol a deunydd megis cardiau busnes, bathodynau enw, pasys, tocynnau, cardiau diolch, slipiau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.

## TEITLAU

4.3 Pan gaiff dogfennau eu cyhoeddi yn Gymraeg, bydd yr enw 'Swyddfa Gartref' ac enw'r gyfarwyddiaeth neu'r uned sy'n eu cyhoeddi, yn Gymraeg.

## ARWYDDION

4.4 Bydd yr holl arwyddion allanol a mewnol ym manau cyhoeddus unrhyw swyddfeydd yng Nghymru y mae gan y Swyddfa Gartref gyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt naill ai'n ddwyieithog neu mewn fformatau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Lle caiff arwyddion iaith ar wahân eu defnyddio byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

4.5 Bydd pob arwydd newydd yn ddwyieithog. Caiff yr arwyddion presennol eu gwneud yn ddwyieithog pan gânt eu newid.

## CYHOEDDIADAU A FFURFLENNI

4.6 Bydd yr Adran yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ati isod, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a'n trefn arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall. Byddwn yn defnyddio system sgorio, i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i nodi'n wrthrychol pryd y dylai deunydd gael ei gyhoeddi yn Gymraeg/ddwyieithog.

4.7 Mae rhywfaint o ddeunydd y Swyddfa Gartref ar gael yn Gymraeg eisoes – a gellir ei weld yn adran Gymraeg gwefan y Swyddfa Gartref ([www.homeoffice.gov.uk/Cymraeg](http://www.homeoffice.gov.uk/Cymraeg)). Yn ogystal, caiff adroddiadau arolygu ar sefydliadau yng Nghymru, a gyhoeddir gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, eu cyhoeddi yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Mae data ar droseddau a chyfiawnder troseddol ar gael ar ffurf crynodeb ystadegol dwyieithog a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y system sgorio a ddisgrifir uchod yn gymwys i bob cyhoeddiad ac ailargraffiad newydd a gyhoeddir ar ôl cymeradwyo'r cynllun – yn ogystal â chyhoeddiadau presennol y mae disgwyl iddynt gael eu hadolygu, eu hailgyhoeddi neu eu hailargraffu.

Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael canllawiau ysgrifenedig ar ddyllunio a chynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog. Lle codir tâl am gyhoeddiadau, ni fydd pris testun dwyieithog yn fwy na phris fersiwn Saesneg; yn yr un modd, lle caiff dogfennau eu cyhoeddi ar wahân, ni fydd pris y fersiwn Cymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg. Yn yr achos olaf, bydd yr un mor hawdd cael gafael ar y ddau fersiwn yng Nghymru, a'r nod fydd eu cyhoeddi ar yr un pryd, a'u dosbarthu gyda'i gilydd.

## **GWEFANNAU**

4.8 Bydd gwefan y Swyddfa Gartref yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg a bydd fersiynau Cymraeg o dudalennau rhyngweithiol ar gael.

Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn nodi sut yr awn ati i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar ein gwefan, dros amser.

4.9 Mae'r Swyddfa Gartref yn gwneud defnydd cynyddol o'r rhyngwyd at ddiben lledaenu gwybodaeth. Nodir yn glir lle y gellir cael gafael ar ddeunydd Cymraeg ar yr hafan. Ein bwriad yw y bydd y tudalennau Cymraeg ar y we yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ein hamcanion a'n gwerthoedd, sut i gysylltu â ni a sut i wneud cwyn a thudalen gyhoeddiadau sy'n rhestru pob un o'n cyhoeddiadau Cymraeg. Byddwn hefyd yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ar ein prif feysydd gwaith megis troseddau, diogelwch, pasbortau a mewnfudo, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a'r heddlu.

## **HYSBYSEBION YN Y WASG**

4.10 Bydd datganiadau i'r wasg a anfonir at y wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, lle bydd terfynau amser yn caniatáu hynny.

Pan fydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhoi ar y wefan, y drefn arferol fydd eu rhoi yn Gymraeg a Saesneg.

## **HYSBYSIADAU SWYDDOGOL, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSIADAU RECRIWTIO STAFF**

4.11 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Bydd hysbysiadau yn ymddangos yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd waeth p'un a fyddant yn cael eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau Saesneg yng Nghymru, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a ddsberthir ledled y DU yn ymddangos yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

## **YMGYRCHOEDD YN Y CYFRYNGAU**

4.12 Bydd deunydd ymgyrchu a gynhyrchir i'w ddefnyddio gan y cyfryngau ysgrifenedig neu'r cyfryngau darlledu sydd wedi'i anelu at y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer ei ddefnyddio yng Nghymru.

4.13 Caiff y dull a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol ei gymhwyso hefyd at unrhyw ddeunydd amlgyfrwng a gynhyrchir gan y Swyddfa Gartref.

4.14 Pe byddai'r Swyddfa Gartref yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a fyddai'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â staff neu gontractwyr y Swyddfa Gartref yn uniongyrchol dros y ffôn, byddwn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gysylltu â ni dros y ffôn neu'n ysgrifenedig fel y bo'n briodol.

## **DEUNYDD A DDARPERIR GAN SEFYDLIADAU ERAILL I'W DDEFNYDDIO GYDA'R CYHOEDD**

- 4.15 Mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod y gall argaeledd deunydd iaith Gymraeg fod yn elfen bwysig o allu asiantaethau eraill i gyflawni cydraddoldeb iaith effeithiol o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Felly bydd unedau perthnasol y Swyddfa Gartref yn cysylltu'n rheolaidd ag asiantaethau priodol yng Nghymru (megis yr heddlu) er mwyn pennu pa rai o'r eitemau a gynhyrchir ganddynt sy'n cael yr effaith fwyaf ar allu'r asiantaethau hynny i gynhyrchu gwasanaeth iaith Gymraeg; yna bydd y wybodaeth hon yn ffactor pwysig wrth iddynt flaenoriaethu eu rhaglen gyfieithu.

## **TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

- 4.16 Wrth ddatblygu ei strategaeth gyfrifiaduron, bydd y Swyddfa Gartref yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb iaith at bob menter yn y dyfodol. Bydd y manylebau ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol newydd, neu addasu rhaglenni cyfrifiadurol yn cynnwys cyfeiriad priodol at yr angen i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â'r cynllun hwn. Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer Meddalwedd Ddwyieithog.
- 4.17 Lle nad oes modd addasu rhaglenni/systemau cyfrifiadurol presennol i hwyluso Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref neu wasanaethau Gymraeg eraill, gwneir trefniadau interim er mwyn goresgyn unrhyw anawsterau.

## **GWAITH PARTNERIAETH**

- 4.18 Pan fydd y Swyddfa Gartref yn arwain partneriaeth ffurfiol yn strategol ac yn ariannol, bydd yr Adran yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fydd yr Adran yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan sefydliad arall, bydd mewnbwn yr Adran i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a bydd yr Adran yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fydd yr Adran yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, bydd yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Dim ond i bartneriaethau ffurfiol sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r uchod yn berthnasol.

## Adran 5 Gweithredu a monitro'r cynllun

### **GWEITHREDU**

- 5.1 Cyhoeddir y cynllun hwn gyda chefnogaeth lawn Gweinidogion y Swyddfa Gartref a Bwrdd y Swyddfa Gartref. Caiff y cynllun ei gydgyssylltu a'i fonitro gan gydgyssylltydd y cynllun.
- 5.2 Anfonir canllawiau ar weithredu'r cynllun at bob Cyfarwyddwr a Phennaeth Uned, a byddant yn gyfrifol am ei roi ar waith a'i weithredu o fewn eu cylchoedd gweithredu. Bydd gan bob cyfarwyddiaeth aelod o staff a fydd yn gyfrifol am gysylltu ag unedau unigol o fewn y gyfarwyddiaeth ynghylch y cynllun, a chydychydgyssylltydd y cynllun.
- Bydd cydgyssylltydd Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref yn paratoi cynllun gweithredu manwl i'w gytuno â'r Bwrdd, sy'n nodi sut y bydd yr Adran yn sicrhau y bydd yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn, ac yn ei ddiweddarau'n barhaus. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun yn weithredol, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau bod yr ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn yn cael eu cyflawni cyn gynted â phosibl. Rhestrir y prif dargedau ar gyfer cyflawni'r cynllun yn Atodiad A.
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymhlith ein staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar wefan yr Adran.
- Caiff cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, eu datblygu ar gyfer staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.
- Caiff cyfarwyddiadau desg presennol, neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan staff, eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun hwn.
- Trefnir sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd pob aelod newydd o staff yn cael gwybodaeth am y cynllun iaith Gymraeg yn ystod ei gyfnod sefydlu.
- 5.3 Bydd unrhyw gyfieithydd a ddefnyddir gan y Swyddfa Gartref yn gymwysedig ac yn gallu darparu gwasanaeth cost effeithiol o safon uchel. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.
- Bydd unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin yn benodol ag ef yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol yn y cynllun hwn.

### **Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH A'R RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**

- 5.4 Bydd yr Adran yn gweithredu yn unol â chyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
- Pan fydd yr Adran yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, caiff ei chyfieithu i ddewis iaith yr ymgeisydd ar yr amod nad yw nifer y geiriau y mae angen eu chyfieithu yn golygu nad oes modd gwneud hynny am resymau ariannol.

### **GWASANAETHAU A DDARPERIR AR RAN YR ADRAN GAN DRYDYDD PARTÏON**

- 5.5 Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnaed gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun. Bydd hyn yn cynnwys contractio neu is-gontractio gwasanaethau.
- 5.6 Lle bynnag y gwahoddir tendrau ar gyfer darparu gwasanaethau bydd y Swyddfa Gartref yn nodi gofynion o ran y defnydd o'r iaith Gymraeg, lle bydd hwn yn ffactor perthnasol.
- 5.7 Bydd rheolwyr busnes yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir gan y contractwr llwyddiannus ac yn cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad.



- 5.8 Hysbysir staff sy'n ymdrin â chontractau am y gofynion hyn.

## MONITRO

- 5.9 Bydd yr Adran yn monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodwyd yn y cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Anfonir adroddiad ar y cynnydd hwnnw at uwch reolwyr.

Bydd y gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Bydd yr Adran yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, pan fyddant yn gwneud cais.

Y targed yw sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn gweithredu yn unol â nodau ac amcanion y cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod yn weithredol. Defnyddir gweithdrefn hunanasesu i fonitro cynnydd, i'w chytuno â'r Bwrdd.

- 5.10 Ymdrinnir â chwynion ynghylch agweddau penodol ar weithrediad y cynllun gan unedau unigol yn unol â'u gweithdrefnau cwyno eu hunain.

## ADOLYGU A DIWYGIO'R CYNLLUN

- 5.11 Caiff y cynllun ei adolygu o fewn pedair blynedd iddo ddod yn weithredol.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, gallai fod angen i'r Adran adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau yn swyddogaethau'r Adran, neu'r amgylchiadau y mae'r Adran yn ymgymryd â swyddogaethau presennol oddi tanynt, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## CWYNION AC AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLA

- 5.12 Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at yr uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am y cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Home Office  
Direct Communications Unit  
2 Marsham Street  
London SW1P 4DF  
E-bost: [publicenquiries@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:publicenquiries@homeoffice.gsi.gov.uk)

Bydd y Swyddfa Gartref yn cydweithredu â'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

## CYHOEDDUSRWYDD

- 5.13 Bydd copïau o'r cynllun hwn ar gael o [cymraeg@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:cymraeg@homeoffice.gsi.gov.uk) a chânt eu dosbarthu i bob parti â diddordeb yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal, bydd manylion ar gael yn y ddwy iaith ar wefan y Swyddfa Gartref.

Medi 2009

# Atodiad A Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r cynllun

Targed	Dyddiad cwblhau
<p><b>1. Gwefan</b></p> <p>Gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, byddwn yn cytuno ar raglen i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar ein gwefannau a diweddarau'r gwefannau hyn ar y sail hon.</p>	<p><b>Medi 2009</b></p>
<p><b>2. Gweithgor</b></p> <p>Byddwn yn sefydlu gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyfarwyddiaethau allweddol o fewn y Swyddfa Gartref i symud y broses o gyflawni'r cynllun yn ei blaen.</p>	<p><b>30 Medi 2009</b></p>
<p><b>3. Hyrwyddwyr</b></p> <p>Byddwn yn sefydlu hyrwyddwyr mewn swyddi uwch o feysydd allweddol i hyrwyddo'r cynllun ar lefel uchel o fewn y Swyddfa Gartref.</p>	<p><b>Cwblhawyd</b></p>
<p><b>4. Sesiwn/sesiynau ymwybyddiaeth staff</b></p> <p>Byddwn yn cynnal sesiwn/sesiynau ymwybyddiaeth staff i hyrwyddo gwybodaeth o'r cynllun ymhlith staff.</p>	<p><b>0 fewn 2 fis i gymeradwyo'r cynllun</b></p>
<p><b>5. Canllawiau i'r staff</b></p> <p>Byddwn yn darparu canllawiau i'r staff i'w hysbysu o'r cynllun a'r goblygiadau o ran eu gwaith a'r pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau.</p>	<p><b>Yn barod i'w cymeradwyo o dan y cynllun</b></p>
<p><b>6. Asiantaethau</b></p> <p>Byddwn yn cysylltu â'n hasiantaethau i dynnu eu sylw at y cynllun a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau o dan y cynllun.</p>	<p><b>0 fewn 1 mis i gymeradwyo'r cynllun</b></p>
<p><b>7. Contractau</b></p> <p>Byddwn yn diwygio ein contractau safonol a'n templedi contract i gynnwys cyfeiriad at y cynllun.</p>	<p><b>30 Medi 2009</b></p>
<p><b>8. Cyhoeddusrwydd ar gyfer y cynllun</b></p> <p>Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ar ein gwefan ac mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd perthnasol.</p>	<p><b>0 fewn 2 fis i gymeradwyo'r cynllun</b></p>



